



# YR ADRODDIAD YSGOL

Profiadau pobl ifanc hoyw yn ysgolion Cymru yn 2012





# Rhagair

**Andrew White**

Cyfarwyddwr **Stonewall Cymru**

Erbyn hyn mae degawd wedi bod ers cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion (2002) a oedd yn nodi'n eglur nad oedd Adran 28 yn atal 'trafodaeth wrthrychol ar gyfunrhywiaeth' yn yr ystafell ddosbarth. Roedd hyn i bob pwrpas yn diddymu Adran 28 yng nghyfundrefn Addysg Cymru a oedd newydd ei datganoli ar y pryd. Er hynny, mae'r ddeddfwriaeth honno wedi taflu cysgod tywyll dros ein hysgolion. Roedd llawer o athrawon yn ansicr a oedden nhw'n cael mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, hyd yn oed, a heb hyder a sgiliau i wneud hynny. Datgelodd astudiaeth arloesol Stonewall yn 2007 faint y difrod; roedd dau draean y bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dweud eu bod wedi profi bwlio homoffobaidd yn yr ysgol, a dim ond chwarter eu hysgolion oedd yn dweud bod bwlio o'r fath yn annerbyniol.

Fel ymateb, a gyda chymorth hanfodol Ymddiriedolaeth Monument a Sefydliad Paul Hamlyn, creodd Stonewall ystod o adnoddau arloesol o ansawdd uchel ac addas i oedran ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion ac athrawon. Yn ystod y degawd diwethaf mae Stonewall Cymru wedi gweithio gydag asiantaethau addysg allweddol, ac yn uniongyrchol gydag ysgolion a cholegau ledled Cymru, i sicrhau bod athrawon, am y tro cyntaf, yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i addysgu'n gadarnhaol ynghylch cyfeiriadedd rhywiol, yn ogystal ag i fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a'i atal.

Mae Adroddiad Ysgol 2012, arolwg o fwy na 1,600 o bobl ifanc hoyw dros Brydain, yn dangos rhai canlyniadau calonogol. Mae lefelau bwlio homoffobaidd wedi gostwng

10% ers 2007, ac mae nifer yr ysgolion sy'n dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol wedi mwy na dyblu. Mae'r ymchwil hefyd yn rhoi tystiolaeth eglur bod disgyblion yn yr ysgolion sy'n cymryd camau syml i fynd i'r afael â homoffobia yn llai tebygol o gael eu bwlio ac yn llawer mwy tebygol o deimlo'n fodlon yn eu hysgolion a theimlo bod croeso iddynt yno.

Mae'r astudiaeth yn dangos bod llawer mwy i'w wneud eto. Mae dros hanner y bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Mhrydain yn dal i brofi bwlio homoffobaidd, ac mae ei effaith ddinistriol yr un mor amlwg. Mae dau ymhob pump o'r disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n profi bwlio homoffobaidd yn ceisio lladd eu hunain neu'n ystyried gwneud hynny yn uniongyrchol oherwydd y bwlio. Mae tri ymhob pump o ddisgyblion sy'n profi bwlio yn dweud bod hyn yn effeithio ar eu gwaith ysgol ac mae saith ymhob deg disgybl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cyfaddef eu bod yn methu'r ysgol ar adegau. Er hyn, mae nifer y disgyblion hoyw sy'n dweud bod athro wedi siarad â nhw am y ffaith bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol yn un ymhob pedwar yn unig.

Os ydyn ni wir yn anelu at Gymru lle gall pob un plentyn gyrraedd ei lawn botensial, mae mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd yn allweddol. Rhaid i'r holl prif chwaraewyr, o'r Adran Addysg a Sgiliau, Estyn a darparwyr Hyfforddiant Athrawon, i ysgolion unigol a byrddau llywodraethwyr, gadw golwg ar eu swyddogaeth eu hunain o ran creu a hwyluso amgylcheddau dysgu lle gall hyn ddigwydd. Dyna oedd ein gweledigaeth pan sefydlwyd Stonewall Cymru ddegawd yn ôl; dyna yw ein prif flaenoriaeth hyd heddiw.

# Canfyddiadau

## LEFELAU BWLIO HOMOFFOBAIDD

Mae dros hanner (55 y cant) y bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn profi bwlio homoffobaidd yn ysgolion Prydain.

### Ges i fy mhenio yn y coridor a fy mhwnio yn y parc.

Iwan, 15, ysgol uwchradd

### Cefais i fy mwlio tipyn o gwmpas yr amser pan ddes i allan. Wnaeth yr athrawon ddim byd i helpu hyd yn oed pan glywon nhw'r sylwadau gwawdlyd a'r clecs oedd yn mynd o gwmpas amdana i.

Meleri, 14, ysgol uwchradd

Mae bron â bod yr holl bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol (99 y cant) yn clywed ymadroddion fel 'mae hynna mor gay' neu 'ti mor gay' yn yr ysgol.

## YMATEBION I FWLIO HOMOFFOBAIDD

Dim ond hanner y disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n dweud bod eu hysgolion yn datgan bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol. Mae llai na thraean (31 y cant) yn dweud bod eu hysgol yn ymateb yn gyflym i fwlio homoffobaidd pan fydd yn digwydd.

### Ces i fy mwlio am flwyddyn gan fachgen yn fy nosbarth i. Wnaeth yr athrawon ddim rhoi stŵr iddo am fy nghyffwrdd i a galw enwau cas arna i tan i fi

### dynnu sylw pennaeth y flwyddyn at y peth dair gwaith.

Gavin, 16, ysgol uwchradd

Dim ond deg y cant o ddisgyblion hoyw sy'n dweud bod athrawon yn herio iaith homoffobaidd bob tro maen nhw'n ei glywed. Mae mwy na hanner y disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dweud nad yw disgyblion eraill byth yn herio iaith homoffobaidd pan fyddant yn ei glywed.

Mae bron â bod tri ymhob pump o ddisgyblion hoyw sy'n cael eu bwlio yn dweud nad yw myfyrwyr eraill sy'n dyst i fwlio homoffobaidd byth yn ymyrryd.

### O'r hyn dw i wedi'i weld mae athrawon jyst yn ei anwybyddu. Mae bron pob un disgybl yn yr ysgol yn dweud 'gay' mewn ffordd negyddol. Pan dw i'n clywed rhywun yn dweud pethau fel 'mae hynna mor gay' dw i'n dweud y drefn wrthyn nhw ac yn ceisio'u cael nhw i weld ei fod yn annerbyniol ac yn homoffobaidd.

Bethan, 14, ysgol uwchradd

Mae un ymhob pedwar (26 y cant) o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dweud bod athro wedi siarad â nhw am y ffaith bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol. Un ymhob deuddeg (8 y cant) sy'n cael negeseuon am fwlio homoffobaidd gan eu penaethiaid ysgol. Dim ond tri y cant sy'n dweud bod eu rhieni yn cael gwybodaeth am hynny.

Fe ddywedodd fy athro i ei fod e'n credu bod HIV gan George Michael 'achos bod e'n hoyw' [Nid yw George Michael erioed wedi dweud bod HIV arno]. Fe wnes i a merch arall ei herio gan esbonio bod unrhyw un yn gallu cael HIV. Y peth trist yw taw athro bioleg oedd e, felly dylai e wybod sut mae pobl yn cael HIV.

CARYS, 16, ysgol uwchradd (Cymru)

# O'n i wastad yn rhy anghyfforddus am fy rhywioldeb i gwyno am unrhyw fwlio.

OWEN, 17, ysgol uwchradd (Cymru)

## ADDYSGU A CHEFNOGI

Dim ond un ymhob tri (34 y cant) o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n cael trafod neu ddysgu am faterion hoyw yn yr ysgol sy'n dweud bod hyn yn digwydd mewn ffordd sy'n gadarnhaol ar y cyfan.

Mae mwy na phedwar ymhob pump (85 y cant) o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dweud nad ydyn nhw byth yn cael addysg yn yr ysgol am agweddau biolegol na chorfforol perthnasoedd o'r un rhyw. Nid yw pedwar ymhob pump (81) byth yn dysgu ble i fynd i gael cyngor a chymorth am berthnasoedd o'r un rhyw.

### **Dyw'r ysgol byth yn rhoi sylw iddo. Maen nhw'n ymddwyn fel petai'r pwnc ddim yn bod.**

Dylan, 15, 15, ysgol uwchradd

Dim ond un ymhob tri (33 y cant) o bobl ifanc hoyw sy'n trafod materion lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh). Dim ond un ymhob pump (22 y cant) sy'n trafod pobl hoyw neu eu perthnasoedd mewn gwersi addysg rhyw a pherthnasoedd.

Mae bron â bod dau draean (63 y cant) y bobl ifanc hoyw yn defnyddio'r rhyngwrdd i gwrdd â phobl eraill lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.

## GOBLYGIADAU I DDISGYBLION HOYW

Mae llai na hanner (46 y cant) y bobl ifanc hoyw yn teimlo bod oedolyn yn yr ysgol y gallen nhw siarad â nhw ynghylch bod yn hoyw. Nid yw un ymhob pump (21 y cant) o ddisgyblion hoyw yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae disgyblion sy'n profi bwlio homoffobaidd dair gwaith yn fwy tebygol na disgyblion eraill o ddweud nad ydynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

### **Mae'n anodd ffeindio oedolyn gallwch chi ymddiried ynddo i ddweud sut rydych chi'n teimlo go iawn.**

Sian, 14, ysgol uwchradd

Ar y llaw arall, mae disgyblion sy'n cael addysg gadarnhaol am faterion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn llawer mwy tebygol o deimlo'n rhan o gymuned yr ysgol (87 y cant o gymharu â 55 y cant) ac o deimlo bod eu hysgol yn 'lle goddefgar sy'n fy nerbyn a lle mae croeso i fi' (94 y cant o gymharu â 64 y cant).

Mae tri ymhob pump o ddisgyblion sy'n profi bwlio homoffobaidd yn dweud bod hyn yn effeithio ar eu gwaith ysgol. Mae un ymhob chwech (16 y cant) yn dweud ei fod wedi cael effaith fawr ar eu gwaith ysgol.

### **Nes i fethu llawer o'r ysgol achos bwlio. O'n i mas o'r ysgol am ran fwyaf o Flwyddyn 11.**

Rhys, 17, ysgol uwchradd

Mae dau ymhob pump (41 y cant) o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n profi bwlio homoffobaidd yn dweud eu bod yn hunan-niweidio yn fwriadol yn uniongyrchol oherwydd y bwlio, sy'n gyson gydag ymchwil arall sy'n cysylltu profiadau o fwlio â risg uwch o hunan-niweidio.

# Argymhellion: Ysgolion

## 1 GWNEUD Y PETHAU SYLFAENOL

Mae disgyblion hoyw yn profi llai o fwlio homoffobaidd mewn ysgolion sy'n datgan yn eglur bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol. Mewn ysgolion lle nad yw sylwadau homoffobaidd yn cael eu clywed byth neu lle mae hynny'n brin, mae gostyngiad o bron â bod hanner yn nifer yr achosion o fwlio homoffobaidd.

- **Dylai fod gan ysgolion bolisiâu eglur sy'n cael eu hyrwyddo ar fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth, y coridor a'r tu hwnt i glwydi'r ysgol. Dylid herio pob defnydd o iaith homoffobaidd a dylid sicrhau bod disgyblion yn deall pam fod defnyddio iaith o'r fath yn annerbyniol.**

## 3 ARWAIN ODDI UCHOD

Mae llai nag un ymhob deg o ddisgyblion hoyw wedi clywed negeseuon am fwlio homoffobaidd gan bennaeth yr ysgol. Mae 17 y cant o ddisgyblion hoyw yn dweud bod athrawon a staff eraill yr ysgol yn gwneud sylwadau homoffobaidd.

- **Dylai penaethiaid, llywodraethwyr ac arweinwyr eraill ysgolion sicrhau bod mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd yn gyfrifoldeb ar gymuned gyfan yr ysgol. Fel blaenoriaeth, dylai arweinwyr yr ysgol sicrhau nad yw aelodau o staff yn defnyddio iaith homoffobaidd.**

## 2 RHOI SYLW CYFLYM A PHENDANT I ACHOSION

Mae llai na thraean y disgyblion hoyw yn dweud bod eu hysgol yn ymateb yn gyflym i fwlio homoffobaidd pan fydd yn digwydd. Pan fydd pobl ifanc yn dweud wrth rywun am y bwlio, does dim byd yn cael ei wneud i'w atal mewn bron â bod dau draean o'r achosion.

- **Dylid cymryd pob achos o fwlio homoffobaidd o ddifrif a dylid gweithredu arno ar unwaith, gyda chosbau eglur a chyson i'r rheini sy'n gyfrifol. Dylid cyfeirio bwlio parhaus yn uwch yn hierarchaeth yr ysgol – gan gynnwys uwch reolwyr a rhieni fel y bo'n briodol.**

## 4 COFIO'R DARLUN CYFLAWN

Mae tri ymhob pump o ddisgyblion hoyw sy'n profi bwlio homoffobaidd yn dweud bod hyn yn effeithio ar eu gwaith ysgol. Mae un ymhob tri o ddisgyblion hoyw sy'n profi bwlio homoffobaidd yn newid eu cynlluniau ar gyfer addysg yn y dyfodol oherwydd hynny.

- **Dylai ysgolion weld mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd fel rhan o'u hymdrech ehangach i wella ymddygiad a hybu dyheadau, safonau a chyrhaeddiad.**

## 5 PARATOI EICH STAFF

Mae tri ymhob pump o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n profi bwlio homoffobaidd yn dweud nad yw athrawon sy'n dyst i'r bwlio byth yn ymyrryd. Dim ond deg y cant o ddisgyblion hoyw sy'n dweud bod athrawon yn herio defnydd o iaith homoffobaidd bob tro maen nhw'n ei glywed.

- **Dylai ysgolion sicrhau bod athrawon yn cael eu hyfforddi sut i ymladd bwlio homoffobaidd a sut i gefnogi pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Dylai hefyd fod yn rhan o waith datblygu proffesiynol parhaus – dylai ysgolion sicrhau bod darparwyr datblygu proffesiynol parhaus allanol yn gallu hyfforddi staff ar fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd. Dylai ysgolion edrych ar ysgolion sydd eisoes yn mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd yn llwyddiannus, a dysgu ganddynt.**

## 7 ANNOG MODELAU RÔL

Mae mwy na hanner y bobl ifanc hoyw yn teimlo nad oes oedolyn yn yr ysgol y gallant siarad â nhw ynghylch bod yn hoyw, ac nid yw dau ymhob pump sy'n profi bwlio homoffobaidd byth yn dweud wrth neb amdano – yn aml gan eu bod yn teimlo cywilydd.

- **Bydd athrawon a staff ysgol sy'n herio bwlio a iaith homoffobaidd mewn ffordd amlwg ac sy'n mynd i'r afael yn gadarnhaol â materion hoyw yn gwneud pobl ifanc yn hyderus i fynd at oedolion yn yr ysgol. Dylai ysgolion hefyd gefnogi staff hoyw sydd am fod yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol.**

## 9 DARPARU CYMORTH A CHEFNOGAETH

Mae dau ymhob pump o'r disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n profi bwlio homoffobaidd yn ceisio lladd eu hunain neu'n ystyried gwneud hynny yn uniongyrchol oherwydd y bwlio.

- **Dylai nyrsys ysgol ei gwneud yn eglur y gall pobl ifanc siarad â nhw yn gyfrinachol am eu cyfeiriadedd rhywiol. Dylid eu hyfforddi i gefnogi anghenion penodol pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol ac i fod yn ymwybodol o'r materion iechyd meddwl penodol y gallent fod yn eu hwynebu.**

## 6 CYNNWYS POBL IFANC

Mae bron â bod tri ymhob pump o ddisgyblion hoyw sy'n cael eu bwlio yn dweud nad yw myfyrwyr eraill sy'n dyst i fwlio homoffobaidd byth yn ymyrryd. Mae mwy na hanner y disgyblion hoyw yn dweud nad yw disgyblion eraill byth yn herio defnydd o iaith homoffobaidd pan fyddant yn ei glywed.

- **Dylai ysgolion fynd ati i gynnwys pobl ifanc yn y gwaith o lunio polisiâu gwrth-fwlio ac i'w hannog i fod â pherchnogaeth ar fentrau gwrth-fwlio er mwyn creu amgylchedd lle gall pobl ifanc eu hunain ymwrthod â bwlio homoffobaidd a'i herio.**

## 8 EHANGU'R CWRICWLWM

Mae mwy na hanner y bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dweud nad yw'r ysgol byth yn dysgu dim iddynt am faterion hoyw yn eu gwersi. Mae mwy na phedwar ymhob pump yn dweud nad yw'r ysgol byth yn eu dysgu am agweddau biolegol na chorfforol perthnasodd o'r un rhyw

- **Dylai ysgolion integreiddio materion cyfeiriadedd rhywiol yn eu holl addysgu. Dylai ysgolion hefyd roi gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc hoyw i'w helpu i gadw'n iach ac yn ddiogel.**

## 10 GWNEUD MWY NA THACLO BWLIO

Mae disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn gadarnhaol am faterion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn llawer mwy tebygol o deimlo bod eu hysgol 'yn lle goddefgar sy'n fy nerbyn a lle mae croeso i fi'.

- **Mae ysgolion da yn gwneud llawer mwy na dim ond mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd. Maen nhw'n creu amgylchedd yn yr ysgol lle caiff gwahaniaethau ac amrywiaeth eu hybu a'u dathlu yng nghymuned gyfan yr ysgol.**

# Argymhellion: Partneriaid allweddol

## YR ADRAN ADDYSG A SGILIAU:

- Parhau i wneud blaenoriaeth allweddol o fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, a chyfathrebu'r flaenoriaeth hon i ysgolion drwy ganllawiau eglur. Dylai hyn gynnwys polisiau enghreifftiol, cyngor ar fonitro a chofnodi achosion, ac astudiaethau achos arfer da.
- Annog ysgolion cynradd i drafod 'gwahanol deuluoedd' fel rhan o'u haddysgu, gan alluogi'r disgyblion i fagu ymwybyddiaeth addas i'w hoedran o amrywiaeth bywyd teuluol cyn iddynt fynd i'r ysgol uwchradd.
- Gwneud yn siŵr bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a chefnogi pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon.
- Creu cyfleoedd i arweinwyr ysgol rannu eu profiadau a dysgu gan ei gilydd o ran mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd yn eu hysgolion.

## ESTYN:

- Parhau i sicrhau bod effeithiolrwydd ysgol o ran mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a chreu amgylchedd dysgu diogel ar gyfer yr holl bobl ifanc yn cael ei ystyried fel rhan o'r fframwaith arolygu.
- Tynnu sylw at arfer da a meysydd i'w gwella yn y maes hwn er mwyn rhoi amcanion i ysgolion ar gyfer y dyfodol a gadael iddynt ddysgu o lwyddiant eraill.
- Sicrhau bod yr holl arolygwyr yn cael eu hyfforddi ar faterion cyfeiriadedd rhywiol a sut i fesur effeithiolrwydd ysgol o ran mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd.
- Wrth arolygu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon sicrhau eu bod yn darparu hyfforddiant sy'n paratoi athrawon i fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd

## AWDURDODAU LLEOL:

- Sicrhau bod eu holl ysgolion yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd mynd i'r afael â iaith homoffobaidd a bwlio homoffobaidd.
- Hwyluso cyfleoedd i ysgolion gefnogi ei gilydd yn y maes hwn a nodi ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n enghreifftiau o arfer da fel y gallant rannu eu harbenigedd.
- Darparu canllawiau i'w hysgolion ar gofnodi a monitro achosion o fwlio homoffobaidd a mesur cynnydd ar lefel awdurdod neu ar lefel sefydliad.
- Datblygu cysylltiadau gyda'r gwasanaethau sector cyhoeddus a sector preifat hynny a all gefnogi eu hysgolion o ran mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd.
- Creu cysylltiadau gyda grwpiau lesbiaidd, hoyw a deurywiol a grwpiau ieuencid sy'n rhoi cymorth i ysgolion ac unigolion ynghylch mynd i'r afael â bwlio.
- Sicrhau bod eu hysgolion yn gallu cael gafael ar gymorth, hyfforddiant a chynghor o ran mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a chefnogi pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

# Adnoddau a Chymorth



Mae rhaglen **Hyrwyddwyr Ysgolion** Stonewall Cymru yn darparu cymorth a chanllawiau wedi'u teilwra i ysgolion cynradd ac uwchradd unigol, gan eu helpu i ddatblygu strategaethau i herio ymddygiad bwlio homoffobaidd ac i ddathlu gwahaniaethau. Mae ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen yn gweithio gyda Stonewall Cymru a gyda'i gilydd er mwyn mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a hybu amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol ar gyfer eu holl blant a phobl ifanc.




Mae ein rhaglen **Education Champions** yn darparu cymorth wedi'i deilwra i awdurdodau lleol yn eu gwaith o fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a'i atal yn eu hysgolion. Drwy'r rhaglen hon, mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda Stonewall Cymru a gyda'i gilydd er mwyn sefydlu ffyrdd o fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a hyrwyddo amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol ar gyfer eu holl bobl ifanc.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i [www.stonewallcymru.org.uk/ynyrysgol](http://www.stonewallcymru.org.uk/ynyrysgol) neu anfonwch ebost i [addysg@stonewallcymru.org.uk](mailto:addysg@stonewallcymru.org.uk)

**Mae gan Stonewall Cymru hefyd ystod eang o adnoddau sydd ar gael i ysgolion a all helpu i fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a chefnogi pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol a helpu i fynd i'r afael â llawer o'r materion sydd wedi eu hamlinellu yma**




*Different Families:* the experiences of children with gay parents (2010)




Poster a sticeri *Teuluoedd Gwahanol* i helpu ysgolion i ddathlu gwahaniaethau



*The Teachers' Report* (2009) Arolwg YouGov o dros 2,000 o staff ysgolion cynradd ac uwchradd ynghylch bwlio homoffobaidd



*'Oh no! Not the gay thing!'* – pecyn o syniadau ar sut i fynd i'r afael â materion lesbiaidd, hoyw a deurywiol drwy'r cwricwlwm



*Celebrating difference:* Challenging homophobia in primary schools (2011) DVD hyfforddi staff ysgolion cynradd 28 munud o hyd



*Allan Ag E – Ein* DVD hyfforddi staff ysgolion uwchradd



*FIT* – Ffilm nodwedd Stonewall ar gyfer ysgolion uwchradd



*Role Models* – Casgliad o 17 stori personol gan fodlau rôl lesbiaidd, hoyw a deurywiol llwyddiannus ac ysbrydoledig sy'n arweinwyr mewn gwahanol ddiwydiannau



*Mae rhai pobl yn hoyw. Deliwch A'r peth!* poster, cardiau post a sticeri



*Canllawiau Addysg* – gan gynnwys *Challenging homophobic language; Supporting lesbian, gay and bisexual young people; Including different families; Working with faith communities and Effective school leadership*

**I gael rhagor o wybodaeth neu i archebu unrhyw rai o'r adnoddau hyn ewch i [www.stonewallcymru.org.uk/ynyrysgol](http://www.stonewallcymru.org.uk/ynyrysgol)**

**YR ASTUDIAETH** Comisiynodd Stonewall y Ganolfan Ymchwil Teulu ym Mhrifysgol Caergrawnt i gynnal arolwg gyda phobl ifanc sy'n lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol (neu sy'n meddwl efallai eu bod nhw) ar eu profiadau mewn ysgolion uwchradd a cholegau ledled Prydain. Rhwng mis Tachwedd

2011 a mis Chwefror 2012, cwblhaodd 1,614 o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol arolwg ar-lein. Ewch i [www.stonewallcymru.org.uk/ynyrysgol](http://www.stonewallcymru.org.uk/ynyrysgol) i weld yr adroddiad llawn *The School Report: The experiences of gay young people in Britain's schools in 2012*